**EITEM AR YR AGENDA: 12**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mehefin 2006**

## DILEU DYLED DDRWG

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd i'r Awdurdod**

## 1. Diben yr Adroddiad

Ceisio cymeradwyaeth i ddileu dyled ddrwg yn unol â'r Rheoliadau Ariannol.

## 2. Cefndir

Ar Ionawr 13eg 2004 aeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru at ddigwyddiad lle roedd cemegau wedi gorlifo mewn hen warws yn Abergele, ar safle hen danerdy. Pan ymchwiliwyd, gwelwyd fod plant wedi mynd i mewn i'r safle nad oedd dan glo ac wedi amharu ar y drymiau cemegol ac roedd y cynnwys wedi llifo i nant gerllaw. Roedd pobl oedd yn cerdded ar hyd y llwybr heibio i'r nant wedi dweud bod arogl cryf yn yr ardal ac roedd hyn wedi arwain at gael Gwasanaeth Arbennig gan y Gwasanaeth.

## 3. Gwybodaeth

Arweiniodd yr alwad Gwasanaeth Arbennig yma at godi tâl o £2895.20 ar berchennog y cwmni.

## 3. Gwybodaeth *(parhad)*

Gwnaethpwyd gwaith mawr trwy bob ffordd bosib i geisio cael y ddyled, ond ar Chwefror 28$^{ain}$ 2006 fe daeth y cwmni i ben.

Gan fod y ddyled i'r Awdurdod yn dal yn ddyledus, yn unol â Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod – Rheol 14.10 "Dylid rhoi gwybod am ddyledion na ellir eu hadfer sy'n werth mwy na £1,000 i ATGC" i'w gymeradwyo.

## 4. Argymhelliad

Bod yr aelodau'n cymeradwyo dileu'r ddyled gan nad oes modd ei hadfer.